

# ADOLYGIAD 2014

Mae Cytûn yn ymgynghori'n flynyddol gyda'r eglwysi a'r enwadau ar ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ni fu 2014 yn eithriad, ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori gydag arweinwyr eglwysig, rhanddeiliaid a'r Grŵp Galluogi, fe gyhoeddodd Bwrdd Cytûn ei nodau ac amcanion ar gyfer y flwyddyn.

Rhodddwn ddiolch bod Cytûn, gyda chydweithrediad â'r eglwysi sy'n aelodau ohono, ynghyd â'r gymuned Gristnogol ehangach yng Nghymru, wedi gallu cyflawni y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd wedi amcanu i'w cyflawni yn ystod 2014. Mae'n bleser gennym gyflwyno adolygiad byr o'r deilliannau o dan yr amrywiol benawdau y cytunwyd arnyn nhw, yn y gobaith y byddant yn fodd i ysbrydoli ac annog y gwaith y byddwn yn parhau i'w wneud yn 2015+16 tuag at dystiolaeth fwy cydlynol ac effeithiol i'r Efengyl yn ein gwlad.

### **Ffydd a Threfn - Ymrwymiad Lleol**

Mae gwaith Cytûn yn parhau wedi ei wreiddio'n gadarn yn y profiad lleol. Ar y lefel honno y mae modd dyfnhau perthnasoedd a chyfeillgarwch newydd. Ceisiodd y tîm staff wasanaethu'r gymuned Gristnogol ledled Cymru – yng nghefn gwlad yn ogystal ag yn y ddinas - trwy fynychu amrywiaeth eang o wasanaethau, trwy bregethu, cynnal encilion, a thrwy fod yn rhan o achlysuron arwyddocaol a chadw gwyliau. Nid yw'n syndod bod yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol yn darparu ffocws neilltuol i dderbyn sylw. Trwy adeiladu ar lwyddiant 2014, mae cynlluniau ar y gweill eisoes i archwilio'r thema ar gyfer 2015, *Mae'r Ffynnon yn Ddofn*, trwy ddeunydd adnodd yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (EYMI) sydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac sydd wedi ei ffurfio'n bendant gan fewnbwn Cymreig. Mae'r wythnos yn darparu cyfle arbennig ar gyfer gweddi a myfyrdod.

Ar hyn o bryd, mae gan Cytûn gysylltiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda 82 o grwpiau lleol, wedi darparu cefnogaeth fanwl ar gyfer cymunedau eciwmenaidd gyda phartneriaethau mwy ffurfiol a chaplaniaethau. Bu Sally Thomas, a ddaeth gyda'i doniau arbennig at Cytûn o'r Eglwys Unedig Ddiwygiedig, yn arbennig o weithredol yn y maes hwn. Cafodd Grŵp Galluogi Cytûn ei galonogi gyda'r ffaith bod nifer cynyddol o bartneriaethau lleol wedi bod yn rhannu eu cyflawniadau a'u dyheadau gyda chynrychiolwyr yr eglwysi a'r enwadau.

Ar adegau, gofynnir i Cytûn ddathlu ben-blwyddi arbennig eglwysi neu enwadau sydd wedi bod â phresenoldeb arwyddocaol yng Nghymru. Eleni, roedd gallu dathlu 140 mlynedd ers dechrau gweinidogaeth Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru yn fodd i ddarparu achlysur o lawenydd mawr ym Mhort Talbot. Bu llawer rhagor o ddathliadau yn adlewyrchu ehangder y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan Cytûn.

### **Caplaniaethau**

Ceisiodd Cytûn gefnogi caplaniaethau mewn amrywiol ffyrdd: yn gweithio gyda Chanolfan Caerdydd ar gyfer Astudiaethau Caplaniaeth a grŵp yr eglwysi sy'n llywio'r Gaplaniaeth Gefn Gwlad wedi ei lleoli ym Maes y Sioe Frenhinol Gymreig. Gwnaed ymdrechion i sicrhau cymorth ariannol eglwysig a chyhoeddus parhaus ar gyfer caplaniaethau ledled Cymru. Cafodd hyn ei gyflawni ambell dro yn wyneb ymgais gref gan yrwyr sy'n fwriadol yn ceisio seciwlareiddio Cymru.

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

---

### **Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol**

Trwy gydol 2014, parhaodd Cytûn i ddarparu cefnogaeth weinyddol ac anogaeth ynghylch trafodaethau oedd yn canolbwyntio ar yr argymhellion a oedd yn deillio o'r Cydgynulliad. Mae'r Eglwysi Cyfamodol wedi buddsoddi cryn lawer o amser, meddwl a gweddi wrth ystyried sefydlu Eglwys yn Uno yng Nghymru.

Dan stiwardiaeth ofalus Rhian Linecar, mae trafodaethau'n parhau ac mae amrywiaeth o opsiynau'n cael eu hystyried o ddifri ynghylch sut i fwrw ymlaen â'r broses yng ngoleuni'r ymatebion cychwynnol. Gofynnir am eich gweddïau dros Rhian wrth iddi baratoi i ymddeol ddiwedd mis Mehefin 2015, pan fydd hi'n cael ei hordeinio gan yr Eglwys yng Nghymru. Rhown ddiolch am ei gwasanaeth amhrisiadwy a myfyrio ymhellach ar sut y bydd modd symud ymlaen yn y dyfodol. Beth bynnag fydd y canlyniad, yn wyneb natur gynyddol y trafodaethau hyn a pharodrwydd yr Eglwysi i fuddsoddi ynddyn nhw, gellir yn wir ystyried y trafodaethau'n rhai mwyaf blaengar yn y byd. Maen nhw hefyd wedi bod yn hollol gydnaws â ffocws Cytûn ar ddyfnhau perthnasoedd. Gall y modd y bydd y perthnasoedd hyn yn dyfnhau yn y dyfodol ddibynnu'n helaeth ar ddawn yr eglwysi.

### **Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru**

Ceisiodd Cytûn gefnogi gwaith grwpiau o eglwysi neilltuol fel Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn enwedig mewn perthynas â'r hyn y mae'n ymwneud ag ef mewn meysydd allweddol megis addysg grefyddol, caplaniaethau a digwyddiadau cenedlaethol proffil uchel, ynghyd â thrafodaethau. Ym mis Tachwedd, fe gynorthwyodd Cytûn yr eglwysi i helpu Cyd Bwyllgor Addysg Cymru i ffurfio'i ystyriaethau ynghylch addysg grefyddol yng Nghymru. Gwnaed ymdrech i sicrhau bod argyhoeddiadau'r Eglwysi Rhyddion yn derbyn sylw a'u trosglwyddo'n gywir mewn perthynas â materion eraill. Ceisiodd Cytûn wrando'n benodol ar argyhoeddiadau cryf ynghlân â phryderon am heddwch a chyfiawnder a'u trosglwyddo i bwerau gwleidyddol. Ar nodyn mwy personol, rhoddwyd croeso arbennig yn y flwyddyn 2014 i'r Llywydd newydd, y Parchedig Peter Dewi Richards gan ddiolch i Dduw am y gwasanaeth ffyddlon a roddwyd gan y Parchedig Gareth Morgan Jones. Byddwn, yn Cytûn, yn parhau i weddio'n gyson dros y ddau.

### **Cyrff Cysylltiedig**

Mae'n fraint arbennig i Cytûn gael cynnig cefnogaeth ymarferol i'r holl gyrff sy'n gysylltiedig â ni. Mae'r Ystafell Fyw yng Nghaerdydd, yn neilltuol, wedi cael ei chynnwys yn ein gweddïau trwy gydol 2014. Bu aelodau o staff Cytûn yn brysur yn bersonol yn codi arian at yr elusen ac yn cefnogi cleientiaid. Cafodd cefnogaeth o'r fath ei had-dalu gan staff a thîm cefnogol yr elusen yn yr anogaeth gynnes y maen nhw wedi ei rhoi i Cytûn.

Ceisiodd Cytûn hefyd hwyluso trafodaethau ynghylch yr Oleulong ym Mae Caerdydd a darparu cefnogaeth lywodraethol i Ganolfan Addysg Gristnogol i Oedolion, Caerdydd. Rhoddwyd cefnogaeth barhaus i Gymorth Cristnogol a CAFOD fel dwy asiantaeth gymorth ryngwladol sy'n perthyn i'r eglwysi. Cafodd gwaith Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru hefyd ei gefnogi a'i broffilio.

### **Cynulleidfaoedd Lleiafrifol Ethnig**

Mae Cytûn yn parhau i dyfu fel offeryn eciwmenaidd cenedlaethol. Mae llawer o'r tyfiant hwnnw wedi digwydd o fod yn gallu croesawu cynulleidfaoedd lleiafrifol ethnig, o amrywiaeth o wahanol draddodiadau diwinyddol, yn aelodau. Mae Methodistiaeth,

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

---

gyda chefnogaeth ymglymiad Cytûn, wedi bod yn neilltuol o lwyddiannus wrth gydnabod a meithrin sawl cynulleidfa newydd. Rydym yn parhau i weddio dros y Parchedig Irfan John wrth i'r weinidogaeth hon dyfu a datblygu. Un agwedd ar y weinidogaeth hon yw'r ddrama Gŵyl y Geni sy'n torri pob record ac yn cael ei pherfformio bob Adfent. Mae cylch cyfeillion a chymdeithas Cytûn yn parhau i dyfu. Gwasanaethwyd a chefnogwyd cynulleidfaedd o'r fath gan Rwydwaith Cyfiawnder Hilyddol Cytûn.

### Gweithgarwch Rhyng-ffydd

Mae Cytûn wedi parhau i ddarparu ysgrifenyddiaeth i Gyngor Rhyng-ffydd Cymru, gan alluogi trafodaethau, nid yn unig yn genedlaethol o leoliad yng Nghaerdydd, ond hefyd o leoliadau fel Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru. Mae wedi bod yn anrhydedd gwasanaethu'r amrywiaeth cyfoethog sydd yng nghymunedau ffydd Cymru trwy weithredu fel cyswllt gwybodaeth rhyngddyn nhw, gan geisio gwell dealltwriaeth a cheisio sicrhau nad yw pobl ffydd yn cael eu camddeall neu eu gosod ar ymylon bywyd cyhoeddus Cymru.

Gofynnwyd i Cytûn wasanaethu cymunedau ffydd Cymru ar Gyngor Partneriaeth Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2015, bydd Cytûn yn ceisio gwneud y gwaith hwn yn fwy effeithiol trwy ymwneud yn ffurfiol â thîm dynodedig o'r Gyngor Rhyng-ffydd.

Un o'r gweithgareddau mwyaf arwyddocaol yn ystod 2014 oedd ymweliad Rhyng-ffydd Cymru ym mis Hydref â Srebrenica yn Bosnia. Ffurfiwyd cyfeillgarwch newydd a chyffrous, ac archwiliwyd myfyrdod ddiwinyddol arwyddocaol ynghylch y goffadwriaeth am yr 8,372 o ddynion a bechgyn a laddwyd ym mis Gorffennaf 1995. Rhoddodd yr ymweliad gyfle hefyd i'r ddirprwyaeth o Gymru drafod materion fel y radicleiddio sy'n digwydd gartref yng Nghymru. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i seremoni flynyddol Cyngor Dinas Caerdydd i Goffau'r Holocaust.

Yn achos materion rhyng-ffydd, mae gan Cytûn draddodiad hir o fod yn gallu dod ag amrywiol gymunedau Cymreig at ei gilydd a sicrhau eu bod yn cydweithio'n dda. Mae'r gwaith arloesol hwn yn waith parhaus, ac mae wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar bontio dau fyd, sef lleiafrifoedd ethnig Cymru a'r cymunedau sefydledig o Gymry Cymraeg. Mewn llawer ffordd mae Cytûn wedi ei leoli mewn modd unigryw i hyrwyddo trafodaethau o'r fath.

Mae'r gwaith hwn wedi ei weinyddu'n hynod o dda gan Sasha Perriam sy'n cadw cofnodion cyfarfodydd fel rhan o'i dyletswyddau gweinyddol, gan ofalu bod swyddfa Cytûn yn gweithio'n effeithiol o ddydd i ddydd. Mae partneriaid rhyng-ffydd yn aml wedi mynegi eu gwerthfawrogiad iddi am ei gwaith cydlynu amhrisiadwy.

### Tystiolaeth

Mae dyled Cytûn yn fawr i Ynyr Roberts am ei arweiniad nodedig wrth hwyluso tystiolaeth yr eglwysi mewn digwyddiadau cenedlaethol fel Sioe Frenhinol Cymru, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a'r Eisteddfod Genedlaethol ei hun. Mae'r eglwysi'n cynnig sawl gwasanaeth o addoliad, sy'n gyfle i filoedd o Gristnogion dystio a phrofi brawdgarwch yn y digwyddiadau hyn. Bydd eglwysi a mudiadau sy'n aelodau o Cytûn yn amlinellu'r pryderon a'r ymgyrchoedd y maen nhw'n dymuno'u proffilio. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, ymysg llawer o sgysiau eraill, roedd ffocws neilltuol ar faterion yn ymwneud â heddwch a phryderon Cymorth Cristnogol ynghylch y trais a

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

---

welwyd yn Llain Gaza. Fel bob amser, mae dyled Cytûn yn fawr iawn i'r gwirfoddolwyr hynny sy'n rhan o'r eglwysi, ac sy'n gwneud cymaint o ymrwymiad er mwyn galluogi'r weinidogaeth hon i ffynnu.

Yn fynych, mae Cytûn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau fel Cymdeithas y Beibl er mwyn eu helpu i weithredu'n effeithiol yng Nghymru, yn ogystal â recriwtio staff. Cynigiodd Cytûn rywfaint o gefnogaeth i'r elusen Gobaith i Gymru er mwyn archwilio datblygiad ei chenhadaeth sydd wedi ei sylfaenu ar y Beibl. Mae staff hefyd wedi ymweld ag ysgolion i drafod materion fel pryderon sy'n bodoli ynghylch ffydd, cydraddoldeb a mewnfudo.

### Hyfforddiant

Eto, hwylusodd Cytûn y cwrs Croeso i Gymru ar gyfer gweinidogion sy'n newydd i Gymru. Eleni, manteisiodd nifer o eglwysi ar yr hyfforddiant oedd yn cael ei gynnis yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf. Daeth cyfranogwyr ynghyd o amrywiaeth o gefndiroedd eglwysig gan ddwyn gyda nhw'r safbwynt amhrisiadwy a rydd y rhai o genhedloedd eraill oddi mewn i'r D.U. gan ychwanegu dimensiwn rhyngwladol llawen i'r cwrs. Fel o'r blaen, roedd yr adborth yn galonogol ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Cyflawnodd Cytûn hyfforddiant parhaus ar gyfer clerigwyr Esgobaeth Tyddewi ar Eciwmeniaeth yng Nghymru, gyda chyfeiriad neilltuol ar Argymhellion y Cydgynulliad a'r ymatebion. Bydd staff yn cynnal diwrnod hyfforddiant tebyg ar gyfer clerigion Esgobaeth Llandaf ym mis Ionawr. Mynychodd Rhian Linecar gynhadledd ddiwrnod ym Mhalas Lambeth a oedd wedi ei threfnu gan y *Bossey Institute* gyda golwg ar ddysgu mwy am y ganolfan honno, a chyda'r gobaith o godi ymwybyddiaeth am y lle, ac annog enwadau Cymreig i anfon myfyrwyr yno am gyfnodau byr o astudiaeth.

Ym mis Medi, gwahoddodd BBC Cymru Aled Edwards, fel Prif Weithredwr Cytûn, i gynnis y cyfle i'w staff corfforaethol allweddol ystyried sut oedd eu gwaith yn cael effaith ar gymunedau ffydd gan dalu sylw teilwng i grefydd neu gred fel nodwedd gydradd wedi ei hamddiffyn gan y gyfraith. Llwyddodd y cyfarfod i gynnal trafodaethau da yn ymwneud â lle ffydd mewn bywyd modern a'r mater o ganfyddiadau anffafriol weithiau o rai sy'n diffinio'u hunain yn bennaf trwy eu ffydd.

Cynigiodd staff Cytûn anerchiadau a hyfforddiant ar ffydd hefyd ac ymrwymiad gwleidyddol, gan hyrwyddo cymod ymysg y rhai sy'n agored i drais neu ryfel, ac annog gweithio mewn partneriaeth yn y cyd-destun lleol. Mae diweddariadau hefyd wedi cael eu rhoi, mewn amrywiol leoliadau, ar waith craidd Cytûn.

### Gweithio gyda Phartneriaid Ffydd Cristnogol

Mae Cytûn yn parhau i weithio'n glos gyda phartneriaid Cristnogol eraill ledled Ewrop, Prydain ac Iwerddon. Eleni, cyfarfu ysgrifenyddion cyffredinol Cyngor Cenedlaethol yr eglwysi neu offerynnau eciwmenaid yn yr Iseldiroedd a Gwlad Belg. Canolbwyntiwyd ar genhadaeth yn yr Ewrop sy'n newid yn gyflym. Rhoddwyd ystyriaeth i effaith mewnfudo, y dirywiad mewn ymrwymiad Cristnogol traddodiadol, a'r angen am drafodaethau adfywiedig. Profodd adroddiad ar y trafodaethau hyn i fod o ddiddordeb i Sefydliad Bevan, a gyhoeddodd adroddiad ar waith Cytûn.

Trwy Rhian Linecar, fe gefnogodd Cytûn waith Grŵp Cyfeirio Ffydd a Threfn yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, a'r panel a oedd yn adolygu dogfen astudiaeth

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

---

Comisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd - *The Church: Towards a Common Vision*. Mynychodd Rhian symposiwm hefyd yn Uppsala i ddathlu cyfraniad Archesgob Nathan Söderblom i eciwmeniaeth. Mae Cytûn yn ceisio sicrhau bod cyfraniad eciwmeniaidd nodedig Cymru'n cael ei nodi a'i ddathlu'n rhyngwladol.

Trwy gyfrwng myfyrdod wedi ei chyflwyno gan Aled Edwards, cynorthwyodd Cytûn gydweithwyr yn yr Eglwysi Ynghyd yn yr Alban wrth i'r eglwysi Albanaidd fyfyrion ar ganlyniad y refferendwm ynghylch annibyniaeth ym mis Medi. Roedd nodi safbwynt cenedl ddatganoledig arall ar ddechrau myfyrdod cenedlaethol ar ganlyniad y refferendwm yn cael ei ystyried yn briodol a defnyddiol. Mae'r eglwysi yng Nghymru a'r Alban yn parhau i sgwrsio â'i gilydd yn weddigar ynghylch datganoli anghymesurol y D.U.

Mwynhaodd Cytûn berthynas waith dda gydag *Eglwysi Ynghyd yn Lloegr* (EYLI) wrth gefnogi eu Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Swyddogion Eciwmeniaidd Newydd. Hwylusodd Rhian Linecar sesiynau yng nghynhadledd Swyddogion Eciwmeniaidd EYLI: *The Ecumenical Landscape; Changing Seasons - Expanding Horizons*.

Mae'r *Irish Council of Churches* a'r *Irish Inter-Church Meeting* wedi parhau i fod ym meddyliau a gweddïau Cytûn. Gall Cymru ac Iwerddon fyfyrion ar faterion sy'n gyffredin i'r ddwy wlad yn achos datblygiadau economaidd a materion sy'n codi oherwydd mewnfudo rhyngwladol.

### **Parth Cyhoeddus - Yn weithredol yn yr Arena Wleidyddol**

Am amrywiol resymau, mae Cytûn wedi ail lunio ei ddyheadau yn ymwneud â chyhoeddi ail adroddiad o'r ddogfen *Cymru: Cymdeithas Foesol?* Ar ôl bod gyda Cytûn am nifer o flynyddoedd, bydd Geraint Hopkins yn ymadael ar ddiwedd y flwyddyn i ddilyn ei yrfa mewn gwleidyddiaeth. Cyflwynwn i Geraint ein diolchgarwch a dymunwn yn dda iddo. Gobeithir y bydd olynydd yn y swydd yn fuan. Rhan o'i waith ef, neu ei gwaith hi, fydd helpu Cytûn i baratoi'r eglwys ar gyfer Etholiad Cyffredinol y D.U. yn 2015. Comisiynwyd papurau briffio, a rhagwelir y bydd Cytûn yn gweithio'n agos â'r Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (EYMI) wrth ddarparu deunyddiau a chefnogaeth. Bydd diweddariadau sy'n ymwneud â'r datblygiadau hyn yn cael eu cynnig yn bennaf trwy wefan Cytûn mewn partneriaeth â EYMI.

Mae Cytûn wedi bod yn falch o gael annog eraill i bennu'r cyflymder ynglŷn â sefydlu Cymru fel Cenedl Noddfa. Roedd y newyddion bod Caerdydd wedi cael ei chydnabod fel y brifddinas gyntaf ym Mhrydain i fod yn Ddinas Noddfa yn gefnogol iawn. Mae Alltudion ar Waith, mewn partneriaeth ag eraill, wedi derbyn cyllid arwyddocaol i ddilyn dyheadau noddfa ar ran ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.

### **Partneriaeth Mewnfudo Cymru a Chyfiawnder Hilyddol**

Ar hyn o bryd, trwy waith y Prif Weithredwr, mae Cytûn yn darparu Cadeiryddiaeth ar gyfer y bartneriaeth strategol hon rhwng y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chasgliad o fudiadau trydydd sector. Mae wedi galluogi i Cytûn fod â llais yn y gofal sy'n cael ei gynnig i rai o ffoaduriaid a cheiswyr lloches mwyaf bregus y byd. Mae'r ymrwymiad hwn wedi galluogi Cytûn i ddarparu cefnogaeth effeithiol i'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud gan yr Eglwys Fethodistaidd trwy Brosiect y Drindod yng Nghaerdydd. Mae Cytûn hefyd wedi ymdrechu i ddarparu cefnogaeth i gymunedau Cristnogol Cymreig o fannau helbulus fel Wcráin yn ogystal â

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

---

Syria a gogledd Irac. Darparwyd ffocws hefyd yn ymwneud â gwaith gyda lleiafrifoedd penodol fel sipswn crwydrol a ffoaduriaid o Tibet.

Gwnaed defnydd da o gysylltiadau gyda'r Swyddfa Gartref hefyd yn ystod yr haf wrth helpu i sicrhau bod aelodau o Gôr Synod Mizoram yn gallu cael teithebau a fyddai'n caniatáu iddyn nhw ymweld â Chymru a mwynhau Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cadwyd addoliad mewn cof hefyd o ddifri wrth i Cytûn fod yn flaenllaw yn 2014 yn llunio deunydd litwrgaidd ar gyfer Sul Cyfiawnder Hilyddol yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Gwahoddwyd Prif Weithredwr Cytûn i annerch Cynhadledd Genedlaethol Plaid Cymru ynghylch mewnfudo i Gymru.

### **Gweithio gyda Mudiadau Partneriaeth Eraill**

Yng nghyd-destun yr arena gyhoeddus, mae Cytûn wedi sefydlu perthynas waith lwyddiannus gyda nifer o bartneriaid allweddol: Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol, Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd a Chymdeithas Feddygol Prydain. Gofynnwyd hefyd i Cytûn gefnogi sefydlu cangen o *Citizens UK* yng Nghaerdydd a Chymru.

Mae Oxfam Cymru hefyd wedi bod mewn trafodaethau gyda Cytûn ynglŷn â phryderon ynghylch cyfiawnder cymdeithasol domestig. Ar thema gyffelyb, gofynnodd Cymorth i Ddiodefwyr am gyngor Cytûn ynglŷn ag effeithiau trosedd ar gymunedau ffydd. Arweiniodd Cytûn weithdy yn ystod Symposiwm Digartrefedd y DU gan Cymorth Cymru a gynhaliwyd yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Darparodd y symposiwm gyfle i asiantaethau cyhoeddus gael syniad o hyd a lled y gwaith y mae eglwysi'n ei gyflawni ym maes tlodi a digartrefedd. Roedd y Banciau Bwyd yn ennyn parch mawr. Cefnogodd Cytûn hefyd gynhadledd un dydd Sefydliad Bevan ar ddarlunio *Cymru Heb Dlodi - Wales Without Poverty*.

Un o'r gweithgareddau mwy cynhyrchiol eleni fu datblygu'r bartneriaeth gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg, gan ymwneud â lleiafrifoedd ethnig Cymru a dwyieithrwydd. Sefydlodd Cytûn drafodaeth yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf gyda rhai o'r rhan-ddeiliaid allweddol. Gwahoddwyd Prif Weithredwr Cytûn hefyd i annerch Grŵp Rhyng-bleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar yr iaith Gymraeg ar yr un testun.

Mae gofal am yr amgylchfyd yn rhywbeth sydd wrth galon aelodau Cytûn. Bu trafodaethau gyda Peter Davies o Cynnal Cymru yn gynhyrchiol, a bu'n bleser gan Cytûn fod yn rhan o'r prosiect 'Y Gymru a Garem' yn ystod yr haf. Nod y drafodaeth yw cael clywed gan bobl Cymru a chael gwella'r ddealltwriaeth a rannwn ynghylch y materion hir dymor y gallai cenedlaethau'r dyfodol eu hwynebu. Cyfrannodd y broses tuag at hwylyso'r Bil 'Cenedlaethau'r Dyfodol' trwy'r Senedd.

Mae gan Cytûn berthynas waith fyw iawn â'r wasg Gymreig a'r cyfryngau, gan gynnig cyfweiliadau, myfyrdodau diwinyddol, addoliadau, a chyfraniadau cyson ar amrywiol baneli. Yn aml gofynnir i'r staff am gyngor, a chaiff unigolion allweddol yn y byd eglwysig Gymreig eu cyfeirio atyn nhw ynghylch materion sydd yn ymwneud yn neilltuol â'u maes gwaith.

### **Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru**

Mae Cytûn, i bob pwrpas, yn rhyngweithio'n ddyddiol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Efallai y byddai cydweithio mor agos ac mor rheolaidd

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

---

wedi bod yn rhywbeth anodd ei amgyffred pan ddaeth y Cynulliad Cenedlaethol i fodolaeth yn 1999. Mae eglwysi wedi cael eu cymell i ymateb i geisiadau yn ymwneud ag amrywiaeth o ymgynghoriadau. Mae'r tîm staff hefyd wedi ceisio sicrhau bod Cytûn yn ymateb yn gadarnhaol i wahoddiadau i ddarlithoedd, ymgynghoriadau, ac i ddigwyddiadau lansio strategaethau allweddol.

Mae Cytûn, ynghyd â phartneriaid cymunedau ffydd eraill, wedi ceisio gofalu bod trafodaethau Fforwm Cymunedau Ffydd y Llywodraeth gyda'r Prif Weinidog yn gynhyrchiol ac yn fuddiol. Mae materion cenedlaethol sy'n ymwneud ag iechyd, cydlyniad cymdeithasol, a chyfiawnder cymdeithasol wedi bod yn uchel ar yr agenda. Un pwynt uchel oedd y cyflwyniad grymus a wnaed gan Fyddin yr Iachawdwriaeth ar ymateb yr eglwysi i bryder ynghylch tlodi a digartrefedd. Gwerthfawrogwyd yn fawr y trafodaethau am ddatblygiadau arloesol banciau bwyd. Yn yr achos hwn mae'n debyg fod Cytûn wedi bod yn effeithiol iawn wrth alluogi eglwysi i godi llais, er lles, yn y parth cyhoeddus. Mae'r Fforwm hefyd wedi darparu man defnyddiol i gynnal trafodaethau ynghylch Cristnogion sy'n cael eu herlid yn y Dwyrain Canol, am y gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestinaid, ac am radicaleiddio gan rai Mwslimaidd mewn dinasoedd fel Caerdydd. Ymdrechodd Cytûn, gydag eraill, i sicrhau bod mecanwaith mewn lle i gynorthwyo'r trafodaethau priodol mewn ymateb i unrhyw densiynau cymunedol posib.

Trwy waith Aled Edwards fel Prif Weithredwr, mae Cytûn yn gwneud cyfraniad sylweddol i drafodaethau Bwrdd Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Fforwm Hil Cynulliad Cymru. Bu'r ymglymiad hwn, yn seiliedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol, yn ddefnyddiol i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth iddo ddarparu tystiolaeth ynghylch crefydd a chred. Galluogwyd Cytûn yn arbennig i ddarparu cefnogaeth i grwpiau eglwysig lleol ynglŷn â pharcio cyhoeddus ar y Sul, gan bwysleisio y dylai llywodraethau lleol dalu parch dyledus i grefydd neu gred wrth gynnal asesiad effaith cydraddoldeb yng nghyd-destun eu polisiau.

Gofynnwyd hefyd i Cytûn wasanaethu ar Fwrdd Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, gan helpu Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, ac Eglwys Gadeiriol Llandaf i drefnu Gwynnos proffil uchel a gynhaliwyd ym mis Awst. Mae'r ymglymiad hwn wedi galluogi Cytûn i sicrhau bod achlysuron o'r fath yn adlewyrchu lled safbwyntiau'r eglwysi ynghylch heddwch a rhyfel. Nodwyd tystiolaeth gwrthwynebwyr cydwybodol yn ogystal â choffau milwyr a laddwyd fel, er enghraifft, Hedd Wyn o Drawsfynydd. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad â phartneriaid sydd heb fod yn cynrychioli ffydd o Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol. Cynhaliwyd Gwynnos Awst yn Gymraeg, yn Saesneg ac Almaeneg, a chafwyd cyflwyniad grymus ar heddwch gan Urdd Gobaith Cymru ochr yn ochr â chyfraniadau aml ffydd.

Cefnogodd Cytûn gyflwyniad ffurfiol o Feibl William Morgan i'r Cynulliad Cenedlaethol gan gydweithio â chyfeillion yn y Cynghrair Efengylaidd.

# EGWYDDORION ARWEINIOL

Gydol 2015 a 2016, bwriad Cytûn yw hybu cydweithredu, trafod a chydweithio rhwng ein enwadau a'n eglwysi.

### **Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar dri maes:**

1. Adeiladu a dyfnhau'r perthnasau rhwng yr enwadau a'r eglwysi, gan feithrin cyfeillgarwch a brawdoliaeth rhyngddynt.
2. Deall gyda'n gilydd meddwl Crist a hwyluso cyfleoedd ar gyfer gweddi a myfyrio.
3. Galluogi'r eglwysi i siarad yn fwy effeithiol yn y cylch cyhoeddus.



# Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

**Byrfoddau:** **AE** Aled Edwards, **GR** Gethin Rhys, **RL** Rhian Linecar, **SP** Sasha Perriam  
**ST** Sally Thomas, **YR** Ynyr Roberts

**Mynegai Iliw:** ● Cytûn  
 ● Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol  
 ● Eglwysi Rhyddion

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
<b>1</b> Datblygu a chefnogi Partneriaethau Eciwmenaidd lleol	<b>1.1</b> Gyda'r enwadau, canfod meysydd ar gyfer gwaith y Partneriaethau a hyrwyddo cyrff noddi fel bo'n addas	RL/ST	● Parhaus
	<b>1.2</b> Canfod arbenigedd er mwyn meithrin a bwydo	RL/ST	● Parhaus
	<b>1.3</b> Cefnogaeth Gyfansoddiadol/ Drefniadol a Chanllawiau	AE	● Parhaus
<b>2</b> Annog yr eglwysi i ddarganfod eciwmeniaeth o dderbyn	<b>2.1</b> Cynhyrchu adnoddau ar ran ac ar gyfer yr eglwysi sy'n egluro'r cysyniad o eciwmeniaeth o dderbyn	ST	● Parhaus
	<b>2.2</b> Cyflwyno'r cysyniad o eciwmeniaeth o dderbyn yn hyfforddiant swyddogion eciwmenaidd	ST	● Parhaus
<b>3</b> Cefnogi gwaith Cytûn yn lleol	<b>3.1</b> Cynyddu ymwybyddiaeth grwpiau lleol a rhanbarthol Cytûn o waith Cytûn	Pawb	● Parhaus

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
<b>4</b> Cynyddu ymwybyddiaeth o strwythyrau llywodraethau eglwysi o waith Cytûn	<b>4.1</b> Cydlynu presenoldeb staff a/neu'r Bwrdd a gwneud cyflwyniadau mewn cyrff llywodraethol	AE	● Parhaus
	<b>4.2</b> Codi ymwybyddiaeth well o fewn yr eglwysi o sut i gyfranu at Gynllun gwaith Cytûn ac i alluogi Cytûn i ymateb i geisiadau penodol yn ystod y flwyddyn	Pawb	● Parhaus
<b>5</b> Cefnogi gwaith Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol	<b>5.1</b> Cefnogi'r broses a amlinellwyd yn y Cydgynulliad a bydd yr eglwysi yn ei defnyddio wrth ymateb i argymhellion y Comisiwn; <ul style="list-style-type: none"> <li>• dod o hyd i ardaloedd i sefydlu Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol a chynnal trafodaethau lleol i hybu hyn</li> <li>• dod o hyd i gymunedau penodol, fel datblygiadau tai newydd, lle gellid sefydlu patrymau arbrofol ar gyfer gweinidogaeth eciwmenaidd</li> <li>• cyd-weithio lleol gydag enwadau eraill sydd yn rhan o deulu Cytûn</li> </ul>	RL/AE	● Parhaus

\*\*\* Bydd y rhan uchod (pwynt 5) yn cael ei ddiweddarau yn ystod Gwanwyn 2015

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
<b>6</b> Cydlynu a threfnu tystiolaeth yr Eglwysi mewn digwyddiadau cenedlaethol	<b>6.1</b> Presenoldeb eglwysi Cytûn yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Sioe Frenhinol</li> <li>• Yr Eisteddfod Genedlaethol</li> <li>• Yr Urdd</li> </ul>	YR	● Haf 2015 a 2016
	<b>6.2</b> A digwyddiadau eraill yn ôl y gofyn	AE	● Parhaus
<b>7</b> Cynnal a chynyddu ymwybyddiaeth o rôl bwysig Caplaniaeth yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru	<b>7.1</b> Cydlynu briffio a dylanwadu ar y llywodraeth/y wasg/ eraill	AE	● Parhaus
	<b>7.2</b> Gweithio gyda'r eglwysi a'r enwadau ar Gaplaniaeth Cefn Gwlad	AE	● Parhaus
	<b>7.3</b> Herio'r achos seciwlar	AE	● Parhaus
<b>8</b> Galluogi dylanwad a phresenoldeb yr eglwysi mewn trafodaethau cenedlaethol a datblygiad polisi cyhoeddus	<b>8.1</b> Cynnal cysylltiadau gwych gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus	GR	● Parhaus
	<b>8.2</b> Rhannu gyda'r eglwysi pa fo cyfleoedd ar gyfer cyfrannu at ymgynghoriadau cyhoeddus, gwaith y Llywodraeth, a chydlynu gweithgaredd ar y cyd lle bo hynny'n addas ac yn ddymunol gan yr eglwysi	GR	● Parhaus
	<b>8.3</b> Archwilio'r posibilrwydd o edrych eto ar "Cymru: Cymdeithas Foesol?" gyda'r eglwysi	GR	● Parhaus











## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
	<b>8.4</b> Ymchwilio i'r posibiladau o gydweithredu ynghylch polisi cyhoeddus - gan gynnwys etholiadau	GR	● Parhaus
	<b>8.5</b> Datblygu rhwydweithiau o swyddogion polisi cyhoeddus enwadol ac unigolion ag arbenigedd penodol	GR	● Parhaus
<b>9</b> Cydlynu trafodaethau'r Eglwysi ynghylch addysg grefyddol	<b>9.1</b> Gweithio gyda Chyngor yr Eglwysi Rhyddion ar gynrychiolaeth i CYSAGau a CCYSAGauC	GR	● Parhaus
	<b>9.2</b> Codi ymwybyddiaeth i newid/datblygiad mewn polisi	GR	● Parhaus
	<b>9.3</b> Cynnal cyswllt gweithredol gyda Chyngor Eglwysi Rhyddion	GR	● Parhaus
<b>10</b> Ehangu hyfforddiant eciwmenaidd pellach yng Nghymru	<b>10.1</b> Hyfforddiant Croeso i Gymru ar gyfer Gweinidogion sy'n dod i Gymru.	SP/AE	● Hydref 2015
	<b>10.2</b> Mapio'r galw am fwy o hyfforddiant eciwmenaidd	RL	● Rhagfyr 2015

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
<b>11</b> Datblygu a chynnal perthynas dda gyda chyrff eciwmenaidd eraill	<b>11.1</b> Cefnogi rhwydweithiau a'r gwaith ar y cyd gyda EYMI a chyrff eciwmenaidd eraill	AE	● Parhaus
	<b>11.2</b> Rhannu gwybodaeth ynglyn a cyfarfodydd CEB a CEE sydd i ddod	AE	● Parhaus
	<b>11.3</b> Mynychu a chyfranu at drafodaethau y Grŵp yr Eglwysi ar gyfer Undeb Lleol	RL	● Parhaus
<b>12</b> Darparu adnoddau dwyieithog ar gyfer addoliad eciwmenaidd yng Nghymru	<b>12.1</b> Annog EYMI a chyrff eraill i gynhyrchu adnoddau dwyieithog i Gymru	AE	● Parhaus
	<b>12.2</b> Adnoddau gweddi ac addoli ar gael yn ôl y galw	RL	● Parhaus
	<b>12.3</b> Adnoddau litwrgaidd	AE/RL	● Parhaus
	<b>13.4</b> Darparu gymaint o adnoddau ag sy'n bosib ar wefan Cytûn	RL/YR	● Parhaus

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
<b>13</b> Darparu cyfleoedd i'r eglwysi drafod materion ynghylch athrawiaeth	<b>13.1</b> Darparu ysgrifenyddiaeth o safon uchel ar gyfer y Comisiwn a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru	GR/RL 	Parhaus
	<b>13.2</b> Cefnogi gwaith Panel Ffydd a Threfn y Comisiwn	RL 	Parhaus
	<b>13.3</b> Cydlynu Ymateb i Grŵp Cyfeirio Ffydd a Threfn EYMI i'r eglwysi yng Nghymru	RL 	Parhaus
<b>14</b> Cynnig cyfleoedd i'r eglwysi drafod materion eglwys a chymdeithas	<b>14.1</b> Cenedl Noddfa	AE/SP 	Parhaus
	<b>14.2</b> Materion Rhyngwladol (gan gynnwys Cymorth Cristnogol)	AE/GR 	Parhaus
	<b>14.3</b> Cydlynu gwaith yn ymateb i gymunedau Cristnogol dan erledigaeth, gan gynnwys mater Trafficio Dynol	AE 	Parhaus
	<b>14.4</b> Y Drafodaeth ar Gyfartaledd	AE/GR 	Parhaus
	<b>14.5</b> Rhyng-ffydd, gan sicrhau tystiolaeth Gristnogol yng nghyd-destun y drafodaeth	AE/SP 	Parhaus
	<b>14.6</b> Grŵp Ymgynghorwyr Eiddo'r Eglwysi	GR 	Parhaus
	<b>14.7</b> Deddfwriaeth y DU, RADAR a CLAS pan mae'n effeithio ar Gymru	GR 	Parhaus

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
	<b>14.8</b> Cefnogi'r eglwysi yn eu ymwneud ar y cyd ar gyfer materion heddwch	GR	● Parhaus
	<b>14.9</b> Nodiadau Briffio Rheolaidd pan mae'n addas (cydfynd ag amserlen y Cynulliad)	GR	● Parhaus
<b>15</b> Darparu gwybodaeth i'r eglwysi a rhanddeiliaid er mwyn helpu trafodaeth	<b>15.1</b> Rhoi gwybod am ddatblygiadau yn y mudiadau eciwmenaid	AE	● Parhaus
	<b>15.2</b> Galluogi Aelodau'r Bwrdd i weithredu fel sianeli gwybodaeth effeithiol i'r enwadau	AE/ Bwrdd	● Parhaus
<b>16</b> Gwasanaethu'r Eglwysi lle bo angen ar gyrff allanol	<b>16.1</b> Cytûn i barhau i gynrychioli'r categori "Ffydd" ar CGGC	GR	● Parhaus
	<b>16.2</b> Cynnal cysylltiadau rhagorol gyda'r llywodraeth, asiantaethau, a'r cylch cyhoeddus ehangach yng Nghymru	Pawb	● Parhaus
<b>17</b> Rhoi sylw i weithgaredd enwadol a chydweithredu rhwng grwpiau o eglwysi	<b>17.1</b> Defnyddio fforymau a phwyllgorau Cytûn, a ffyrdd eraill o gyfathrebu	Pawb	● Parhaus

## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal ☺	Amserlen
<b>18</b> Galluogi pobl i rannu barn â'i gilydd	<b>18.1</b> Gan ddefnyddio fforymau a phwyllgorau Cytûn, a ffyrdd eraill o gyfathrebu	Pawb ●	Parhaus
<b>19</b> Helpu arweinwyr eglwysig i gyfarfod a chydrannu	<b>19.1</b> Cydlynu Cyfarfod Arweinwyr Eglwysi Cytûn	AE ●	Dibynnu ar y dyddiadur
	<b>19.1</b> Cydlynu cyfarfodydd cyson ar gyfer gweddi, brawdoliaeth a myfyrio	AE ●	Gydol 2015/16
	<b>19.1</b> Cydlynu cyfarfod arweinwyr eglwysi'r Comisiwn a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru	GR/RL ●	Gydol 2015/16
<b>20</b> Gwella amgylchedd gwaith ac effeithlonrwydd staff Cytûn	<b>20.1</b> Datblygu system ffeilio electronig i bawb	YR ●	Gwanwyn 2015
	<b>20.1</b> Datblygu a gwella system archifo	SP/ Pawb ●	Parhaus
<b>21</b> Datblygu, gwella a chynnal y Wefan	<b>21.1</b> Ychwanegu gwybodaeth amserol a pherthnasol i cytun.org.uk	YR ●	Parhaus
<b>22</b> Cynnal swyddfa weithio da ar gyfer Cytûn	<b>22.1</b> Cynnal a chadw effeithiol ar systemau a phrosesau swyddfa	SP ●	Parhaus



## Cynllun Gwaith Cytûn 2015-2016

Amcan/Canlyniad	Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
<b>23</b> Gwella cyfathrebu gyda'r Eglwysi	<b>18.1</b> Cynhyrchu cylchlythyr Cytûn, a'i argraffu'n broffesiynol, dwy waith y flwyddyn	YR	● Parhaus
	<b>18.1</b> Cyhoeddi Adroddiad Blynnyddol newydd	AE/YR	● Parhaus
	<b>18.1</b> Defnydd cyson o bapurau enwadol	YR	● Parhaus
	<b>18.1</b> Cynyddu'r defnydd o'r papurau Saesneg eu hiaith	YR	● Parhaus
	<b>18.1</b> Rhannu gwybodaeth electronig yn well	YR	● Parhaus
<b>24</b> Cefnogi gwaith y Cyrff Cysylltiol	<b>18.1</b> Ymgynghori â'r cyrff a chysylltu â'r Bwrdd ynghylch eu materion fel y gofynir.	AE	● Parhaus